

Croeso!

Croeso i'r trydydd rhifyn o gylch lythyr CEREDROTIAN. Y mis yma fyddwn yn edrych ar un o uchafbwyntiau tymor rasio harnais, 'Y Crochan Aur'.

Be sydd wedi bod yn digwydd?

Mae'r tywydd wedi chwarae rhan flaenllaw iawn i dymor rasio harnais hyd yn hyn, gydag un cyfarfod ar ôl y llall yn cael ei ganslo. Ar ergyd fwyaf oedd colli Gŵyl rasio Ceredigion. Mae cynnal cyfarfod mor fawr â Rasys Ceredigion yn dipyn o waith ond ofer oedd y cwbl eleni gyda'r tywydd yn ennill y dydd.

Ond dwr dan y bont erbyn hyn, ac mae'n rhaid i ni edrych ymlaen at weddill y tymor. Mae mis Awst yn fis prysur i CEREDROTIAN. Gan ddechrau gyda rasys Tanycastell ar y 5 Awst ac wedi ymlaen i'r penwythnos mawr, Gŵyl Rasio Harnais Tregaron 24, 25 a 26 a gorffen yn rasys Llambod 1 Medi.

Mae'r enwau terfynedig i gyfres y Ddraig Gymreig eisoes wedi rhoi ar lein, ac mae'n amlwg y bydd na thipyn o frwydro yn rasys ieuanc Tregaron eleni. Pedwar ar hugain o geffylau 2 flwydd a 35 o geffylau tair blwydd oed. Rhaid i'r ceffylau i gyd gadarnhau eu bwriad i gystadlu erbyn 15 Awst, a hefyd rhai talu unrhyw geffyl sydd am gael ei atodi erbyn y dyddiad yma.

Llongyfarchiadau i Shannon a wnaeth ennill ein cystadleuaeth 'Dylan y Dreifwr'. Gofynnwyd i'r criw iau rhoi help i Dylan wrth iddo brynu ceffyl newydd, ac ar ôl tipyn o bendroni, 'Sprinter' ceffyl Shannon daeth i'r brig. Gallwch ddilyn hanes Dylan a Sprinter a'r tudalennau lau'r wefan yn ogystal ag ambell i gystadleuaeth arall.



TAN Y CASTELL
HARNES RACING CLUB

Clwb Rasio Harnais Tanycastell

Mae'n argoeli'n dda am rasys gwych yn Tanycastell unwaith eto eleni, ac mi fyddwn yn edrych 'mlaen i dipyn o rasio cystadleuol ac enillwyr bydd yn plesio'r dorf. Yn ogystal ffeinal £1000, mi fydd na ras i aelodau Clwb Cardigan Bay (gyda siaced Ceredrotian i'r enillydd) a hefyd ras 'Y Crock of Bold' cyfle i rai o'n gyrrwyr mwya' aeddfed dangos eu doniau. Manylion llawn y rasys ar y wefan Ceredrotian.com. Dyddiad cau Dydd Sul 29 Gorffennaf (6yh).

Yn ogystal ar rasys mi fydd pwyllgor Tanycastell yn cynnig £100 i'r ddynes a'r wisg orau, felly ferched steil, steil a mwy o steil! Ac yn ôl yr arfer mi fydd Asynnod Dyfi yn ymweld â'r rasys unwaith eto eleni ac yn cynnig reidiau am ddim i'r plant.

Mi fyddwn hefyd yn cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth, felly byddwch yn barod i glicio'r camera yn Tanycastell ar y 5 Awst - Rydym am weld eich dehongliad o 'ddiwrnod y rasys' manylion ar dudalen digwyddiadau'r wefan.



Enillydd Rhagras a Ffeinal 2011 Tanycastell

Brywins That's Life (Gothic Dream/Life's Treasure)

Perchenog: Mike Richards

Hyfforddwyr: Mike Richards

Gyrrwyr: Sarah Allen



Ar y 15fed o Awst 2009 fe gamodd yr ebol 3 blwydd oed, Stoneriggs Mystery allan i drac Efrog am ras gyntaf ei yrfa a chreu tipyn o argraff. Fe ddinistriodd ei wrthwynebwyr ac ennill yn 1.59.6. Buddugoliaeth arall yn Brough a gorffen ei dymor yn Nhir Prins gyda buddugoliaeth a milltir arall dan 2 funud.

Fe ddechreuodd y tymor canlynol yn union le orffennodd y llall, nol yng nghylch yr enillwyr wrth ennill rhagras a ffeinal Appleby. Yna lawr i gwrs rasio Ffos Las, ond rhaid cael llun i ddatgan yr enillydd, ac Adore Hanover cafodd ei thrwyn ymlaen. Ond mewn dim o amser roedd Mystery nol lan yn Musselburgh, ac fe sicrhodd ei le yn ei ffeinal gyda buddugoliaeth dda yn ei rhagras. A bron iddo i gymryd y ffeinal, ond mi ddaeth lan yn erbyn seren arall a gorffen yn ail i Forafewdollarsmore. Wedyn wedi ennill rhagras o Bencampwriaeth 4 oed Corbiewood, mynd i'r de a chyrraedd Tregaron fel y ffefryn mawr i Glasur Cymru. Ennill ei rhagras yn rhwydd, roedd Mystery ar ei ffordd i ennill Ras fawr Tregaron. Ond ym mwrlwm y ras fe garlamodd Mystery ar y tro cyntaf a cholli bob siawns o ennill y £10,000 a Chlasur Cymru.

Ar ôl gaeaf o lyfi ei glwyfau fe ddaeth Mystery yn ei ôl yn 2011 - a gyda thymor newydd, daeth amseru newydd. 26 Mehefin Efrog - 1.58.5; 23 Gorffennaf Efrog - 1.57; 31 Awst 1.56.6 ac un fach arall 1.59.4 yn Efrog i gloi'r tymor. Ac yn ystod y tymor fe aeth i Musselburgh ac fel y flwyddyn flaenorol, ennill y rhagras ond unwaith eto methu ffeindio'r hud i ennill y ffeinal. Ond mi roedd ei berfformiad yn Ras Goffa Billy Williams yn neges glir fod 'na ddyfodol disglair iawn i'r ceffyl bach hyn. Roedd tîm Laidler wedi blasu buddugoliaeth y Crochan Aur gyda Laneside Lexus ac roedd yn amlwg taw Mystery fyddde ei gobaith nesa.

Fe ddaeth Y Crochan yng nghynt nag arfer, a Mystery oedd y ffefryn mawr 5-4, gyda'i wrthwynebwyr agosaf 2-1. Yn y rhagras cafodd ei dynnu yn rhif 4 tu ôl i'r gât, ac yn ymuno gyda fe n y rhagras oedd Wexford Beach, Rhyds Desire, Krakatoa, Fool Around, Red Casino a Devils Best. Stoneriggs Mystery arweinodd allan o'r gât, ond Red Casino yn awchu am y blaen ar y 1/4. Bu Fool Around yn anffodus wrth fynd lawr yr ochr gefn, wrth iddo gael ei wasgu a thorri ei gam, a cholli cryn dipyn o dir, a fe ddangos cryn dipyn o ddawn a chyflymdra i ddod yn ôl i gwriso Stoneriggs Mystery am adre gyda Rhyds Desire yn 3ydd.

Ac ymlaen i'r ffeinal, rhif 4 tu ôl i'r gât unwaith eto. Astounding arwainodd allan o'r gât, ond oedd Mystery am sicrhau'r blaen yn gynnar ac fe aeth i'r blaen yn bwrpasol, yn gadael y gweddill fesul un y tu ôl iddo, ag eithro Dollar methodd ddod i mewn a chael ei orfodi i redeg yn llydan. Wrth gynnar yr hanner, fe symyoss Rhyds Five Star a Fool Around allan i ganlyn Dollar. Fe roddodd Five Star a Dollar bob pwysau ar Mystery ond unwaith eto, Mystery oedd y meistwr wrth ennill y Crochan Aur a rhoi'r 2il fuddugoliaeth yn olynol yn Y Crochan Aur i dîm Laidler.

Yn ei chyfweliad ar ôl y ras, dywedodd ei hyfforddwraig Alexis Laidler "fel y ffefryn, roedd 'na dipyn o bwysau yn mynd mewn i'r ras. Mae'n geffyl arbennig iawn, iawn ac yn hollol deilwng o'r parch sy'n dod o guro'r ceffylau gorau yn y wlad"

Beth nesa i'r seren newydd yma? Wel unwaith eto yn ôl i Musselburgh dydd Sadwrn, i'r Free For All ac mi fydd rhaid gwynebu ennillyd llynnedd Major League Star, Rhyds Five Star a Forafewdollarsmore. Wedyn dydd Sul, rhagras ras fawr Musselburgh, a all Mystery cyrraedd ei 3ydd ffeinal yn Musselburgh? Ac os yw e yna, a fedrith e roi cychwyniad o 40 llath i rai o'i wrthwynebwyr fel Astounding, Cutchall Hanover, Mahogany Jasper ayyb.

Canys beth fydd ei dynged yn Musselburgh, mae'n siŵr y gwelwn gryn dipyn o Stoneriggs Mystery yng nghylch yr enillwyr yn y dyfodol. Pob lwc iddo



Mae enill ras Y Crochan Aur wedi bod yn freuddwyd i lawer ers ei gychwyn yn 2004. Mae enill Y Crochan Aur yn cadarnhau taw chi sydd a'r ceffyl gorau, gan fod rhaid curo

ceffylau gorau'r wlad i gyrraedd y brig. I'r rhai sydd yn ymwneud a rasio harnais mae'n freuddwyd i enill Y Crochan Aur, ond bach yw'r rhai sy'n cyflawni'r gamp ac i lawer mae'n cymryd cryn ymdrech i gyrraedd y ffeinal. Ac fel y gweddill mae'r Cymry wedi bod yn awchu i gael eu dwylo ar Y Crochan Aur - ac yn sicr maent wedi sicrhau eu lle yn y ffeinal ers y cychwyn.

Frisco Titan (Young Commander/Lauras Titan) oedd y cyntaf i dorri i enw ar y Crochan, gyda Nitengale yn cynrychioli Cymru. Fe redodd ras dda i orffen yn 3ydd gyda Scoot Around (Master Scoot/Merry Go Round yn ail.

Fe aeth Scoot Around o nerth i nerth yn y ras gan enill yn 2005 a 2006. Yr unig geffyl i enill Y Crochan Aur ddwywaith. Ac er taw o stabl yn Lloger y daeth i gystadlu, Cymraeg oedd ei fam iaith ac yn Gymro drwyddi draw yw Scoot wedi ei fagu yn Nhregaron. Cawr o geffyl ac erbyn hyn yn chwedlonol ym myd rasio harnais yn y DU.

Ar ôl hynt a helynt ffeinal 2007, a Galiano yn cael ei ddi-arfel, Connors Dragon (Dragon Again/Hurry Up Heather) cafodd ei wobrio a'r Crochan Aur. Unwaith eto'r hen Scoot Around yn ail a Lucky Touch yn dal gobeithio'n Cymru wrth iddo gael ei hyfforddi yng Nogledd Cymru.

Mae ambell i geffyl wedi cael ei mewnfario gyda'r prif fwriad o geisio enill Y Crochan Aur. A falle tebyg oedd hi yn 2008 pan ddaeth

KikiKolt (Western Hanover/Katies Lucky Lady), ebol 4 oed i enill Y Crochan. Fe gafodd dymor byth cofiadwy, enill ffeinal fawr Ceredigion enill ei docyn i ffeinal y Crochan Aur wrth enill rhagras Dyffryn Aman. A dyma unig fuddugoliaeth y Cymry yn y Crochan Aur. Wedi ei hyfforddi a'i yrru gan y Gwyddel John Richardson ond yn cael ei cydberchen gan Cled Jones o Lanbedr Pont Steffan.



Yn 2009 gwelwyd 2 geffyl o Gymru yn y ffeinal, Terripan Hanover a Bon Jasper a enillodd rhagras Boughrood. Ond wnaeth un o'r 2 unrhyw argraff yn y ffeinal, ras y Gwyddelod oedd wrth I Earned Income (Dream Away/Kleen Acquisition) gipio'r Crochan a'i gyd-Wyddelod He's For Real a Pan Lubber yn ail a thrydydd. Y tri yma wedi mewnfario o Ogledd America.

Wedi enill rhagras yn Nhyffryn Amman Wexford Beach oedd yn cynnal gobeithion y Cymry yn 2010. Hedfanodd un o brif yrwyr Gogledd America Jodi Jamieson fewn i yrru ei hen ffrind Doonbeg ond Forafewdollarsmore (The Panderosa/Oh My Dear) cafodd y gorau o'r trac a chipio'r Crochan. Ac unwaith eto'r hen ffeffryn Scoot Around oedd yn ail.

Yn 2011 gwelwyd criw o geffylau mor ddawnus, tipyn o gystadleuaeth. Ar y cerdyn y ceffyl bach yn cynnal record y byd Doonbeg; enillydd 2010 ForaFewDollarsMore; cyn gynnalwr record y trac Crown Manhattan; caseg gorau'r wlad Laneside Lexus; cyn pencampwr 2 a 3oed Rhyds Destiny; Mr cyson Matador Hall a'r ceffyl i enill y wobr £10,000 cyntaf yn y DU Bon Jasper. Ac eto gobeithion y Gymru ar ysgwyddau gyrrwr ifanc o Benuwch. Er iddo gael y fantais o fod yn rhif 1 tu ôl i'r gât, method e na neb arall rhwystro'r gaseg anhygoel Laneside Lexus (Hopping High/Goldilocks) wrth iddo gamu mor

Newyddion Sydyn

bwerus am y llinell derfyn ac i greu hanes wrth i'r gaseg gyntaf ennill y Crochan Aur.

Gyda fformat gwahanol yn 2012, gyda'r rhag rasys a'r



ffeinal ar yr un noswaith, gwelwyd 9 o geffylau "Cymraeg" yn rhoi tro amdani ond dim ond un

wnaeth sicrhau ei le yn y ffeinal. Wedi cael ras digon blêr yn ei rhag ras a thorri i gam yn rhan gyntaf y ras a cholli cryn dipyn o dir, fe ddaeth Fool Around yn ôl yn drawiadol iawn i orffen yn ail i'r ffeifryn mawr Stoneriggs Mystery. Cafodd Fool Around fawr o lwc yn y ffeinal, cael ei dynnu rhif 7 tu ôl y gât mewn cwmni mor safonol roedd yn dipyn o her. Roedd fawr o ddewis gan Rhys Evans ond i eistedd yn amyneddgar wrth y gwt, ond bod parch i'r ddau am gyrraedd y ffeinal a gorffen yn 5ed - a chadw at draddodiad i frawd mawr Scoot Around yn y ras.

Y ffeifryn Stoneriggs Mystery ddaeth i'r brig a pherfformiad gloyw iawn gan roi ail fuddugoliaeth yn olynol i dîm Lailder.

Ymlaen ar cwest a sgwni pa Gymry fydd yn ceisio cynnal y freuddwyd yn 2013.

- Enwau i Rasys Tanycastell erbyn dydd Sul 29 Gorffennaf, rhestr lawn o'r rasys ar wefan Ceredrotian a chofiwch fod yn rhwydd rhoi enwau ar lein
- Enwau i Rasys Tregaron erbyn 15 Awst, rhestr lawn o'r rasys ar wefan Ceredrotian a chofiwch fod yn rhwydd rhoi enwau ar lein.
- Pob Lwc i bawb o Geredigion sy'n cystadlu yn Musselburgh.
- Mi fydd gan Gareth Dowse benwythnos prysur wrth iddo baratoi Delano, y ceffyl mae'n cydberchen, go gyfer a ras fawr yr Hambletonian yn Efrog Newydd. Mae Delano eisoes wedi ennill 3 rhan o NYSS y tymor yma, ar drac Buffalo yn 1.56.3, yn Yonkers yn 1.56.4 a hefyd Vernon Downs yn 1.55. Gan ennill 4 o'i 6 ras eleni barod ac yn cynyddu ei enillion i \$350,000. Pob lwc i Gareth a'i fos a chydperchennog/hyfforddwr a gyrrwr a gan obeithio gall Delano efelychu eu cyn ceffyl Deweycheatumnhowe.
- Longyfarchiadau i Glenys Jones, Llanllwni wrth i'w ebol 2 flwydd Chinatown Kolt (Kikikolt/ Meadowbranch Aruba) ennill yn Portmarnock, Iwerddon yn ddiweddar - perfformiad gloyw iawn yn ennill yn 2.02 a thorri record y trac i geffylau 2 flwydd oed. Magwyd Chinatown Kolt gan Cled Jones, Llambled a hwn yw un o'r ceffylau cyntaf wrth ei farch Kikikolt.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

